**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 870

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2004

**Papurau pleidleisiau**

**9.**—(1) Os y datganiad a'r cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm yw'r un a nodir ym mharagraff 1 o Ran I o Atodlen 1, yna bydd y tu blaen y papur pleidleisio a ddefnyddir yn y refferendwm ar Ffurf A a nodir yn Rhan II o'r Atodlen honno.

(2) Os y datganiad a'r cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm yw'r un a nodir ym mharagraff 2 o Ran I o Atodlen 1, yna bydd y tu blaen y papur pleidleisio a ddefnyddir yn y refferendwm ar Ffurf B a nodir yn Rhan II o'r Atodlen honno.

(3) Os y datganiad a'r cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm yw'r un a nodir ym mharagraff 3 o Ran I o Atodlen 1, yna bydd y tu blaen y papur pleidleisio a ddefnyddir yn y refferendwm ar Ffurf C a nodir yn Rhan II o'r Atodlen honno.

(4) Bydd y tu cefn i'r papurau pleidleisio a ddefnyddir yn unrhyw refferendwm ar y ffurf a nodir yn Rhan III o'r Atodlen honno.

(5) Bydd pob papur pleidleisio —

(a) yn bosib ei blygu;

(b) bydd rhif wedi ei argraffu ar y cefn; a

(c) bydd gwrthddalen ynghlwm wrth bob un a'r un rhif wedi ei argraffu arni.